| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Hydref 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Cynnig i Gau Ysgol Llanbedr DC** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Cabinet o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd o'r 16 Mehefin, 2015 tan 28 Gorffennaf 2015 ynghylch y cynnig canlynol;

***"Cau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni."***

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad gan y Cabinet ynglŷn ag a ddylid cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Llanbedr DC ar y 31 Awst 2016.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Cymeradwyo'r penderfyniad o gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr DC ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Yn Ionawr 2015 gwrthododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gynnig y Cyngor i gau Ysgol Llanbedr DC yn datgan "mae'r Gweinidog wedi penderfynu er yn rhesymol y gellid dod i'r casgliad, ar sail addysgol a strategol, y gallai'r cynnig gael ei gymeradwyo, rhaid iddo serch hynny wrthod y cynnig oherwydd bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol yn ddiffygiol o safbwynt pwysig". Dywedodd y Gweinidog fod gwybodaeth sy'n ymwneud â safonau ac ansawdd mewn addysg yn gyfyngedig. Nododd y Gweinidog ei fod yn "bryderus am ddyfodol Ysgol Llanbedr gan ystyried y nifer isel o ddisgyblion, a natur dros dro yr arweinyddiaeth bresennol".

4.2. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad o'r sefyllfa yn ardal Rhuthun, bu i'r Awdurdod benderfynnu dechrau ymgynghoriad ar gyfer cau gan fod materion fel lleoedd gwag yn parhau.

4.3. Er mwyn mynd i’r afael ar pryderon hyn, penderfynnodd y Cabinet ddechrau cyfnod o ymgynghori ag Esgobaeth Llanelwy. Bu hwn gymryd lle rhwng Ebrill a Mai 2015. Roedd yr Esgobaeth am ddilyn opsiwn o ffedereiddio a newid statws cyfreithiol, ond yn dilyn asesiad ac ystyriaeth gofalus o’r sefyllfa yn ardal Rhuthun, roedd swyddogion o’r farn bod cau yr ysgol yn cwrdd a’r prif yrrwyr strategol Adolygiad Rhuthun gan gynnwys gwarchod safonnau ac ansawdd ar gyfer holl ddisgyblion yr ardal. Yn absennoldeb enw partner a gwybodaeth gefnogol, Penderfynodd y Cabinet ar 2 Mehefin, 2015 i gymeradwyo dechrau ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â’r cynnig â amlinellwyd ym mhara 1.1. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn caniatau i’r Esgobaeth weithio gyda swyddogion i asesu dichonolrwydd ffedereiddio yn fanylach. Roedd yr opsiwn a gyflwynwyd gan yr Esgobaeth wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol.

4.4. Gan fod y cynnig yn ymwneud â chau ysgol Wirfoddol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru mae'r Cyngor wedi nodi Ysgol Borthyn fel y ddarpariaeth amgen arfaethedig sydd o'r un dynodiad crefyddol ac ieithyddol.

4.5. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng y 16 Mehefin, 2015 a 28 Gorffennaf 2015. Cafwyd cyfanswm o 539 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys 112 o lythyrau ac e-byst a 427 o ffurflenni ymateb safonol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion hyn yn erbyn y cynnig presennol.

4.6. Mae angen i Aelodau ystyried yr adroddiad ymgynghoriad a’r dogfennau atodol sy'n dogfennu ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglyn a’r cynnig i gau Ysgol Llanbedr, ac mewn ymateb i gais yr Esgobaeth i ystyried ffedereiddio. I hwyluso hyn, mae’r rhai’n wedi eu manylu isod:

- Mae atodiad 1 yn cynnwys:
  amserlen mewn perthynas ac opsiwn ffedereiddio (1.4),
  ymateb cyffredinnol i’r opsiwn o ffedereiddio (2.2) ac
  asesiad o fuddion ffedereiddio yn benodol i Ysgol Trefnant (3.1).

- Mae atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad ymgynghoriad ffurfiol . Yn yr adroddiad hwn rydym yn gorfod;
  - Crynhoi pob fater a godwyd gan ymgynghorai;
  - Ymateb i’r materion yma drwy egluro, newid y cynnig neu gwerthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi; ac
  - Cyflwyno barn Estyn ar rinweddau’r cynnig.

  Mae’r atodiadau isod yn cwrdd ar tri pwynt yma:
  Atodiad A: Ymateb ysgrifennedig Esgobaeth Llanelwy a Corff Llywodraethwyr Ysgol Llanbedr
  Atodiad B: Rhestr lawn o’r rhai a dderbynyddion y dogfennau ymgynghori
  Atodiad C: Materion a godwyd a sylwadau gan ddisgyblion
  Atodiad D: Materion a godwyd drwy lythyr ac ebost
  Atodiad E: Materion a godwyd drwy’r ffurflen ymateb safonol

Atodiad F: Materion a godwyd gan Esgobaeth Llanelwy
Atodiad F (i): Llythyr gan Esgobaeth Llanelwy
Atodiad G: Materion a godwyd gan Gorff Llywodraethwyr Ysgol Llanbedr
Atodiad H: Ymateb Estyn

4.7. Cafodd y dewis o ffedereiddio ei ystyried gan yr awdurdod pan oedd y cynigion yn eu ffurfio. Gwahoddwyd yr Esgobaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr i gyflwyno eu hachos i aelodau'r Cabinet cyn i'r ddogfen ymgynghori gael ei hystyried yn ffurfiol gan yr aelodau. Yn dilyn y cyflwyniad a chyn cyfarfod y Cabinet ym Mehefin, ysgrifennodd yr aelod arweiniol i'r Esgobaeth gydag arweiniad clir ynglŷn â beth fyddai'n cynorthwyo cabinet wrth ystyried yr opsiwn o ffedereiddio.

4.8. Roedd trafodaethau yn y Cabinet ym Mehefin 2015 yn cynnwys cyfeiriad at y dewis amgen a awgrymwyd gan Esgobaeth Llanelwy a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanbedr DC i'r ysgol ffedereiddio gydag ysgol Eglwys yng Nghymru arall yn Sir Ddinbych a newid yn statws cyfreithiol yr ysgol o Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC) i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA). Fodd bynnag, roedd y Cabinet o'r farn, oherwydd y diffyg manylion dim ond asesiad cyffredinol o ffedereiddio y gellid ei wneud gan nad oedd ysgol wedi'i henwi ar hyn o bryd.

4.9. Mae'r Esgobaeth a'r Corff Llywodraethol wedi datgan fod yna nifer o fanteision y byddai'r opsiwn amgen arfaethedig yn gynnig. Mae'r rhain yn cael eu harchwilio yn Atodiad 1, ynghyd â llinell amser o ddigwyddiadau.

4.10. Mae'r Cyngor yn cytuno yn fras y gallai manteision gael eu gwireddu drwy fodelau ysgol ffederal. Fodd bynnag, ni fyddai rhai o'r materion mewn perthynas ag ardal Rhuthun yn cael eu gwireddu trwy ffedereiddio. Mae rhain yn cynnwys gostwng lleoedd dros ben, cyflawni dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o gyllid ysgolion a darparu ystâd ysgolion mwy effeithlon ac effeithiol. I grynhoi, er byddai ffederieddio yn gwireddu rhai manteision, byddai cau Ysgol Llanbedr yn cyflawni mwy o ein amcanion.

## 5. Y Ffordd Ymlaen

5.1. Mae angen i Aelodau ystyried yr adroddiad ymgynghoriad sy'n dogfennu ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ychwanegol, dylai'r Cabinet ystyried y wybodaeth ychwanegol am yr opsiwn ffedereiddio a gyflwynwyd gan yr Esgobaeth a'r ysgol, cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen.

5.2. O adolygu'r wybodaeth hon, argymhellir bod y Cyngor yn mynd ati i gyhoeddi rhybudd statudol ar sail y cynnig presennol. Bydd yn ofynnol i'r Rhybudd Statudol gael ei gyhoeddi am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod 28 diwrnod hwn, dylai unrhyw un sydd am wneud gwrthwynebiadau i'r cynnig gael y cyfle i wneud hynny. Y bwriad yw, yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi ar 10 Tachwedd 2015 gyda'r cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar 7 Rhagfyr 2015. I gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u

hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

5.3. Yn dilyn y dyddiad hwn, bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a bydd angen i'r Cabinet ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd ac i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

6.1. Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn:

*"Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."*

**7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

7.1. Ni fydd y cais yn cael effaith ar wasanaethau eraill o fewn y sefydliad.

7.2. Bydd y cynnig yn arwain at arbediad yng nghyllideb yr ysgol o £126k, fodd bynnag, efallai y bydd y cynnig yn arwain at gynnydd o tua £26k pe bai pob disgybl sy'n gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn. Byddai arbediad refeniw pellach o £4k yn cael ei wneud o gael gwared ar y caban dosbarth. Bydd y cynnig ar y cyfan yn arwain at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ystâd yr ysgol a dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o ariannu ysgolion.

**8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

8.1. Mae'r AEG a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynnig yn amlygu bod Ysgol Llanbedr yn ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben yn ardal Llanbedr.

8.2. Byddai'r ysgol dderbyn arfaethedig, Ysgol Borthyn, yn ysgol o'r un dynodiad ffydd a fyddai'n caniatáu i ddisgyblion presennol o Ysgol Llanbedr i barhau i gael mynediad at ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ffydd o'r un dynodiad a chyfrwng iaith.

**9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

9.1. Mae ymgynghoriad ffurfiol wedi cael ei gynnal yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol wedi'u nodi yn yr adroddiad ymgynghori ffurfiol (Atodiad 2).

## 10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10.1. Mae'r costau o amgylch y broses ymgynghori wedi cael eu cynnwys o fewn adnoddau presennol. Mae'r oedi o ran gweithredu'r cynnig wedi arwain at bwysau sy'n cael ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol ar gyfer 2015/16. Efallai y bydd angen ateb parhaol yn dibynnu ar ystyriaeth y Cabinet o ganlyniad y cyfnod Rhybudd Statudol a argymhellir yn yr adroddiad hwn.

## 11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1. Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer y Cyngor. Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

## 12. Pŵer i wneud y Penderfyniad:

12.1. Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

12.2. Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009).